

GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/PROFESSIONAL LEARNING GRANT

Ysgol/School	Maenofferen
Swm a ddyrannwyd/ Allocated Sum	£6,574

<p>Amlinelliad o'r bwriadau/Outline of intentions</p>	<p>Gwneir defnydd o'r Grant Dysgu proffesiynol i hyfforddi staff sydd yn cyd fynd a blaenoriaethu CDY yr ysgol 19-20</p> <ul style="list-style-type: none"> Lles a Chynhwysiad – Hyfforddi staff addysgu a chymorthyddion ar ddefnydd o ymyrraethau amrywiol e.e Proffiliau Boxall, Ysgol sy'n Annog (Egwyddorion a Grwpiau) PASS i gefnogi disgyblion. Asesu ar Gyfer Dysgu – Parhau i hyfforddi staff ar arferion da addysgu a dysgu fel rhan o'n darpariaeth cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Rhannu arferion da drwy ymweld. Llafar disgyblion / Datblygu cydweithio Cyfnod Sylfaen i ddatblygu ardaloedd allan CS - Cydweithio dalgylchol i ddatblygu sgiliau llafar ein disgyblion yn y ddwy iaith. Hyfforddiant penodol i staff a chyfle i gyd-weithio gyda staff ysgolion y dalgylch ar greu adnoddau a sicrhau darpariaeth sy'n cyd-fynd a gofynion Cwricwlwm newydd. Cyfleoedd i staff CS gydweithio dan arweiniad swyddogion GwE ar ddarparu a rhannu arferion gorau. <p>Datblygu Arweinwyr Llythrennedd / Rhifedd a gwaith dilynol Datblygiad Proffesiynol Cynorthwy-ydd Addysgu, gan gynnwys Hyfforddiant Maeth, Datguddio ac Boxall a Ysgol sy'n Annog a gwaith dilynol Prosiect Haen 2 Shirley Clarke a gwaith dilynol Datblygu Addysgeg ar draws yr ysgol trwy gydweithrediad Clwstwr a gwaith dilynol Rhaglen Parodrydd Ysgol mewn Partneriaeth gyda GwE ac ysgolion Teulu ac ysgolion traws Sirol (Ysgol Corn Hir / Ysgol Esceifiog).</p>
--	--

<p>Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwyllir/ Expected Impact and Outcomes</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ymyrraethau effeithiol yn cael eu defnyddio ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion o ran lles a chynhwysiad. Dealltwriaeth staff o egwyddorion anogaeth a defnydd o startegaethau penodol yn datblygu ac yn dyfnhau gan arwain at ddefnydd effeithiol ar lawr dosbarth/grwpiau/1:1. Datblygiad mewn sgiliau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Disgyblion yn barod i siarad a rhannu ac yn teimlo'n ddiogel mewn lleoliad cefnogol sydd yn ei dro yn arwain at gynnydd yn eu dysgu a'r gallu i ddangos gwydnwch. Athrawon yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol yn eu dosbarthiadau. Disgyblion yn hyderus wrth hunan asesu/ asesu cyfoedion. Athrawon a disgyblion gyda dealltwriaeth dda o'r ffordd maent yn dysgu orau. Llafar disgyblion yr ysgol yn gwella ar draws yr oedrannau. Canran uwch o ddisgyblion yn cyrraedd y Deilliant/Lefel uwch mewn llafar Cymraega Saesneg. Cysondeb traws dalgylch gyda trosglwyddo cynradd/uwchradd. Athrawon yn hyderus wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru – cynllunio/ gweithgareddau cyfoethog. Rhannu arferion da gydag ysgolion eraill. Cydweithio fel clwstwr. Cyfleon cyfoethog i ddisgyblion drwy weithgareddau ardal allannol.
--	--

	<p>Datblygu Arweinwyr Llythrennedd / Rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu sgiliau arwain a rheoli pwnc. • Datblygu hyder, sgiliau a phriodoleddau. • Cynyddu gallu arweinyddiaeth yr ysgol. • Gwella profiadau i ddisgyblion a chodi safonau • Dangos effaith prosiect arweinyddiaeth trwy wella safonau a dylanwadu ar eraill <p>Datblygiad Proffesiynol Cynorthwy-ydd Addysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth well o effaith bosibl a chadarnhaol rôl yr oedolyn ar ganlyniadau dysgwyr. • Sgiliau cyfathrebu gwell, adborth, asesiad a dealltwriaeth o addysgeg. • Sgiliau gwell sy'n gysylltiedig â chefnogi gweithrediad y Cwricwlwm Newydd; DCF, Cymraeg, FFLIRh a Chreadigrwydd. • Ymyrraeth anogaeth ychwanegol sydd o fudd i fwy o ddysgwyr ar waith ar draws yr Ysgol • Mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o emosiynau ac effaith trawma <p>Cwricwlwm / Cynllunio Creadigol, dysgu yn yr awyr agored a gwaith dilynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o wybodaeth am y Cwricwlwm Newydd a ffordd o sicrhau bod cynllunio yn greadigol, bachu sylw dysgwyr ac yn ddeiniadol • Cynllunio ysgol gyfan sy'n hyrwyddo'r 4 Diben ac sy'n cynnwys cyfleoedd dysgu awyr agored rheolaidd • Cyfleoedd cyson ar gyfer AagD ar draws yr Ysgol • Dysgwyr ar draws yr Ysgol yn mwynhau heriau • Adborth Gwell ar draws yr Ysgol • Gweithredu waliau gweithio i annog dysgu annibynnol ar draws yr Ysgol • Dull diwygiedig o farcio i leihau llwyth gwaith athrawon <p>Datblygu addysgeg ar draws yr ysgol trwy gydweithio clwstwr a gwaith dilynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell addysgeg a dull addysgu a dysgu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr • Ymgyrchoedd pellach Clwstwr yn gweithio i gynorthwyo a Chefnogi pob elfen o hunanwerthuso a gweithredu'r cwricwlwm
--	--

Gwerthuso/Evaluation

Beth sydd wedi gweithio'n	<p>Gweithiodd yr holl elfennau'n dda gan fod Datblygiad Proffesiynol wedi'i glymu'n dynn â thargedau CDY a gafwyd o brosesau hunan-arfarnu ysgol gyfan. Rhoddodd y grant hwn amser ychwanegol i sicrhau bod yr holl ddatblygiadau hyn a 'gwersi a ddysgwyd' ar hyd y ffordd yn cael eu rhannu gyda'r holl staff a'u datblygu cyn belled ag y bo modd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant cyfoethog ar gyfer athrawon a chymorthyddion wedi ei dderbyn o ran lles a chynhwysiad. Amrywiaeth o strategaethau yn dechrau cael eu datblygu ymhellach mewn dosbarthiadau e.e ardal ymdawelu / defnydd o Lego Therapy <p>Aelodau staff wedi cael hyddorddiant anogaeth o ran egwyddorion a grwpiau annog – ymweliadau ac ysgolion eraill i weld arfer dda yn arwain at gynlluniau pellach yn yr ysgol.</p>
----------------------------------	--

dda/What worked well	<ul style="list-style-type: none">• Defnydd effeithiol o strategaethau Asesu ar Gyfer Dysgu. Dysgu ac Addysgu yn dda neu well yn y gwersi.• Cydweithio effeithiol ar draws y dalgylch o ran datblygu'r elfen llafar a'r ddarpariaeth ardal allannol yn y Cyfnod Sylfaen. Rhannu syniadau a chynlluniau/ arferion da wedi bod o gymorth i athrawon yn y broses o adolygu a mireinio.
Yr Effaith a'r Canlyniadau/ Impact and Outcomes	
Y Cam Nesaf/Next stage	Parhau i weithio fel dalgylch ar y blaenoriaethau. Monitro y blaenoriaethau